# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 17fed o Fai, 2022

Presennol: Lynda Massarelli, Meredydd Williams, Eurwyn Jones, Eirian Hoyle, Gareth Jones

1. Ymddiheuriadau: Tomos Parry-Ephraim, Elfed Roberts

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf. EJ, EH

<u>3. Materion yn codi o'r cofnodion</u>

3.389 Ail-etholwyd Lynda Masarelli

3.390 Ethol Swyddogion – Yn dilyn amgylchiadau Covid 19, penderfynwyd ar ddim newidiadau am y flwyddyn yma.

3.391 Diolchwyd i Lynda Massarelli am yr holl waith yn ystod y flwyddyn diwethaf yn ogystal am y gwaith mai yn ei wneud gyda Neuadd y Pentref, Gellilydan. Hefyd diolchwyd i'r clerc am ei gwaith.

3.392 Safle Bws Gellilydan: Gobeithio cael safle bws newydd yn y misoedd nesaf, trydan wedi ei osod yn barod, (cadw mlaen).

3.393 Safle Bws Maentwrog – I'w drafod ymhellach (cadw mlaen).

3.394 Bron Gelli – canlyniad y Peiriannydd Strwythurol - *Debyniwyd ymateb gan Adrian Williams – yn ei farn nis oes rheswm strwythurol I docio'r gwrych ac mae o'r farn byddai angen caniatad gan Parc Eryri gyda rheswm cryf I'w thorri. Mae ymgyrch ar hyn o bryd I hybu gwrych a choed felly ddim yn sicr bydd chefnogaeth I'w torri*. Clerc i ail-gysylltu, dim sôn am y wal, posib cael cadarnhad, yn dilyn yr asesiad, bod y wal yn hollol saff.

3.395 Gors Fach, Gellilydan – clerc i gysylltu ac Iwan ap Trefor i weld os oes cynllun ar gael mewn perthynas a'r llinellau melyn.

3.396 Gwesty Grapes Maentwrog – Tir dros ffordd i'r Gwesty wrth Tan Lan – clerc i gysylltu a'r cyfreithiwr i geisio cael gwybod pwy yw perchennog y darn tir yma.

3.397 Cae chwarae Maentwrog – giât i'r cae chwarae – trafod opsiynau, cadw mlaen.

3.398 Cae Chwarae Gellilydan – dim ymateb gan Adra er sawl cysylltiad e-bost a galwdau ffon wedi ei wneud. Clerc i gysylltu a Ffrancon Williams. Nid does bosib cario mlaen gyda gwaith atgyweirio nes mae Adra wedi cwblhau y gwaith.

3.399 Gofeb – Cytunwyd ar ddyfynbris Elis Smith,£2594 (Llafur £1550, peiriant a tanwydd £450, materials £354, Sub base £240). Gwaith i'w ddechrau cyn gynted ag sydd bosibl.

3.400 Mynwent Dwyryd – Llythyr draft wedi ei dderbyn gan y cyfreithiwr, cynnwys wedi ei gadarhau gyda aelodau o'r cyngor. Disgwyl ymateb nôl gan Yr Eglwys yng Nghymru.

3.401 Llwyn at Penglannau – arwyddion – ymateb wedi ei dderbyn gan Ceri Hughes Thomas. Mai am gysylltu ac Iwan ap Trefor i weld os oes unrhyw wrthwynebiad cyn symud ymlaen i'w harchebu. Disgwyl ymateb,

3.402 Penlan, Maentwrog – Cais wedi ei wrthod.

3.403 Mynwent Utica – clerc i ymateb, nid oes posib i'r Cygor Cymuned gymeryd cyfrifoldeb o'r fynwent.

4. Materion i'w trafod ar y pryd.

4.158 Sedd wâg ar y Cyngor - Clerc i osod hysbysiad ar hysbysfwrdd Gellilydan a Maentwrog.

5. Ariannol

5.81 Gweler yr atodiad sydd wedi ei gadarnhau gan aelodau y cyngor.

5.82 Cytunwyd ar y taliadau canlynol:

5.83 Cyfraniad i Neuadd y Pentref, Gellilydan - £200 – (tuag at y trefniadau i ddathlu y Jiwbili).

5.84 Cyfraniad i Glwb Ffermwyr Ifanc - £100

5.85 Yswiriant BHIB - £366.07

5.86 GL Jones - £752.70

6. Cynllunio

Dim gwrthwynebiad i'r cais canlynol:

6.51 NP5/73/423B Y Felin Llifio, Tan y Bwlch, Maentwrog – Trosi ty allan i lety anecs.

7. Gohebiaeth

208 Cyngor Gwynedd – Rhaglen Waith Mis Mai 2022

209 Ffermwyr Ifanc Meirionnydd

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

8.22 Ysgol Edmwnd Prys - Pryderon yn yr ysgol, niferoedd yn mynd yn isel, opsiynau wedi eu trafod, cyfarfodydd i ddilyn.

9. Dyddiad cyfarfod nesaf

30 o Fehefin 28, 2022, Neuadd y Pentref, Gellilydan.